

Cwestiynau Cyffredin

Gweminar Talu Mwy



Cwestiynau a Ofynnir

Allwch chi brynu Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol A Chyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol hefyd?	3
Alla i drosglwyddo Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol i Gyfraniadau Pensiwn Ychwanegol? Drwy brynu fesul bloc?	3
Sut mae cyfaniadau ychwanegol yn effeithio ar rai sydd ar gredyd cynhwysol?	3
Allwch chi fynd yn ôl i'r cod QR ar y sleid gyntaf?	3
Os wyf yn talu CPY ac yn cael fy ngwneud yn ddi-waith gydag ymddeoliad cynnar, fyddai hynny'n cael ei dalu'n llawn ynghyd â swm pensynadwy arall?	3
Beth yw'r broses ar gyfer defnyddio CGY i gynyddu pensiwn y sawl sy'n goroesi a beth sy'n digwydd i'r arian a fuddsoddir o'r CGY os bydd y gŵr neu'r wraig yn marw cyn y sawl sydd berchen ar yr arian CGY?	4
Nid wyf yn gwybod beth yw mantais y naill dros y llall.	4
Rwyf yn edrych ar y cyfrifydd; nid oes gennyf ddigon o wybodaeth i'w ddefnyddio. Mae angen dewis "Prif adran" neu'r "adran 50:50" ond nid wyf yn gwybod beth ydynt. Mae angen gwybod hefyd pa % mae eich cyflogwr wedi cytuno ei dalu - nid wyf yn gwybod. Felly, ni allaf ddefnyddio'r cyfrifydd.....	5
Mae llawer o sôn ar hyn o bryd y bydd y Llywodraeth yn trethu cyfandaliadau di-dreth ac ati. A yw'n debygol y gallent wneud hynny a'i ôl-ddyddio ar gyfer y pensiwn cyfan? Gallai hyn fod yn gyfandaliad awtomatig neu drosi pensiwn i gyfandaliad neu'r ddau?.....	5
Dolenni a manylion cyswllt defnyddiol	6

Allwch chi brynu Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol A Chyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol hefyd?

Gallwch, gallwch brynu Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPY) a Chyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY) yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae CPY yn caniatáu i chi brynu buddion pensiwn, ac mae CGY yn eich galluogi i gronni cronfa o arian gyda darparwr allanol y gellir ei ddefnyddio i ychwanegu at eich Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol pan fyddwch yn ymddeol. Mae'r ddau opsiwn yn cynnig gostyngiad ar y dreth ar gyfraniadau a dynnir o'ch cyflog a gallwch ddewis talu tuag at CPY neu CGY. Fodd bynnag, os ydych yn yr adran 50:50 o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, ni fyddwch yn gallu talu tuag at CPY.

Alla i drosglwyddo Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol i Gyfraniadau Pensiwn Ychwanegol? Drwy brynu fesul bloc?

Na, ni allwch drosglwyddo CGY yn uniongyrchol i CPY mewn bloc. Mae'r ddau yn fathau gwahanol o gyfraniadau pensiwn yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, gyda'u rheolau, strwythurau a dibenion gwahanol.

Sut mae cyfaniadau ychwanegol yn effeithio ar rai sydd ar gredyd cynhwysol?

Rydem yn argymhell y dylech siarad â'r tîm Credyd Cynhwysol a ddylai allu helpu gyda'r cwestiwn hwn.

Allwch chi fynd yn ôl i'r cod QR ar y sleid gyntaf?

Dyma'r cod QR a'r ddolen at y cyfrifydd CPY:



www.lgpsmember.org/help-and-support/tools-and-calculators/buy-extra-pension-calculator/ (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg)

Os wyf yn talu CPY ac yn cael fy ngwneud yn ddi-waith gydag ymddeoliad cynnar, fyddai hynny'n cael ei dalu'n llawn ynghyd â swm pensiynadwy arall?

Os ydych chi o dan oedran pensiwn arferol, ni fydd buddion eich Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael eu lleihau ar gyfer taliad cynnar. Serch hynny, os ydych chi wedi

PENSIWN

15 – 19 Medi 2025

prynu pensiwn ychwanegol, bydd hwn yn cael ei leihau oherwydd taliad cynnar. Mae hyn yn gymwys i unrhyw bensiwn ychwanegol a dalwyd drwy:

- Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol
- Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol Cost a Rennir, neu
- Cyfraniadau Rheolaidd Ychwanegol

Beth yw'r broses ar gyfer defnyddio CGY i gynyddu pensiwn y sawl sy'n goroesi a beth sy'n digwydd i'r arian a fuddsoddir o'r CGY os bydd y gŵr neu'r wraig yn marw cyn y sawl sydd berchen ar yr arian CGY?

Siaradwch â'ch cronfa bensiynau i gadarnhau a ellir defnyddio eich CGY i brynu buddion i'r sawl sy'n goroesi ac o dan ba amodau.

Os bydd y cyfanswm yn cael ei dalu o'ch cronfa CGY, ni yn unig sy'n penderfynu pwy sy'n ei dderbyn. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol pe baech yn rhoi gwybod i ni beth yw eich dymuniad drwy lenwi ffurflen mynegi dymuniad ar eich cyfrif hunanwasanaeth aelodau. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ei hadolygu'n rheolaidd ac yn ei diweddarau os bydd amgylchiadau'n newid.

Nid wyf yn gwybod beth yw mantais y naill dros y llall.

Ni allwn roi cyngor ar ba un yw'r gorau, gan fod hyn yn dibynnu ar yr unigolyn a'i amgylchiadau.

Fodd bynnag, dyma ddadansoddiad o'u nodweddion gwahanol:

Nodwedd	Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPY)	Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY)
Math	Buddion diffiniedig (pensiwn ychwanegol)	Cyfraniad diffiniedig (cronfa fuddsoddi)
Hyblygrwydd	Isel: canlyniad penodol	Uchel: sawl opsiwn wrth ymddeol
Risg buddsoddi	Dim (pensiwn sicr)	Oes: dibynnu ar berfformiad y gronfa
Ar gael yn adran 50:50	Nac ydy	Ydy
Gostyngiad treth	Oes	Oes
Cyfraniadau cyflogwyr	Posibl (Cynllun Rhannu Cost CPY)	Posibl (Cynllun Rhannu Cost CGY)
Uchafswm y cyfraniad	£8,903 o bensiwn y flwyddyn	Hyd at 100% o dâl pensiynadwy

PENSIWN

15 - 19 Medi 2025

Mae CPY yn rhoi

- Canlyniad penodol: byddwch yn gwybod faint o bensiwn ychwanegol rydych yn ei brynu.
- Taliad gyda'ch prif bensiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu ochr yn ochr.

Gyda CGY

- Chi sy'n dewis sut mae'r gronfa'n cael ei buddsoddi.
- Wrth ymddeol, gallwch:
 - Gymryd hyd at 100% ohono fel arian di-dreth (o fewn rheswm),
 - Prynu blwydd-dal (incwm sicr),
 - Trosglwyddo i drefniant pensiwn arall.

Rwyf yn edrych ar y cyfrifydd; nid oes gennyf ddigon o wybodaeth i'w ddefnyddio. Mae angen dewis "Prif adran" neu'r "adran 50:50" ond nid wyf yn gwybod beth ydynt. Mae angen gwybod hefyd pa % mae eich cyflogwr wedi cytuno ei dalu - nid wyf yn gwybod. Felly, ni allaf ddefnyddio'r cyfrifydd.

Yn y "Brif adran", rydych yn talu cyfraniadau ar gyfradd arferol. Mae'r adran 50:50 yn eich galluogi i leihau eich cyfraniadau fesul hanner ac yn gyfnewid am hynny cronni hanner eich buddion pensiwn arferol. Byddech wedi dewis gwneud hyn, ond os nad ydych yn siŵr ym mha adran o'r cynllun ydych chi, cysylltwch â'ch cronfa bensiynau.

Byddai angen i chi siarad â'ch cyflogwr i weld os byddent yn cyfrannu at Gynllun Pensiwn Ychwanegol.

Mae llawer o sôn ar hyn o bryd y bydd y Llywodraeth yn trethu cyfandaliadau di-dreth ac ati. A yw'n debygol y gallent wneud hynny a'i ôl-ddyddio ar gyfer y pensiwn cyfan? Gallai hyn fod yn gyfandaliad awtomatig neu drosi pensiwn i gyfandaliad neu'r ddau?

Pan fydd y gyllideb wedi bod ar 26 Tachwedd 2025, bydd cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn rhoi gwybod i'r aelodau os bydd unrhyw newidiadau i gyfandaliadau.

PENSIWN

15 – 19 Medi 2025

Dolenni a manylion cyswllt defnyddiol

Gwefan aelodau CPLIL Cenedlaethol 	www.lgpsmember.org Cyfrifianellau, fideos, cwestiynau cyffredin, gwybodaeth gyffredinol am y cynllun (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg)
 Cronfa Bensiynau CLWYD Pension Fund	cronfabensiynauclwyd.org.uk pensiynau@siryfflint.gov.uk
 Oxfordshire Pension Fund www.oxfordshire.gov.uk/pensions	www.oxfordshire.gov.uk/business/oxfordshire-pension-fund Pension.services@oxfordshire.gov.uk
 Shropshire County Pension Fund	www.shropshirecountypensionfund.co.uk pensions@shropshire.gov.uk